POLISI GWISG YSGOL

SCHOOL UNIFORM POLICY

Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol/ Adopted by the Governing Body :

Llofnod y Cadeirydd: ……Delyth Davies…… Dyddiad: …Mai 2021….

Llofnod y Pennaeth: ……Bethan Jones…….. Dyddiad: ……Mai 2021……

Dyddiad Adolygu: 2024…….

Cyflwyniad

Yn Ysgol Bro Gwydir credwn yn gryf bod gwisg ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ymddygiad positif a disgyblaeth, datblygu ethos yr ysgol a chefnogi addysgu a dysgu. Mae hefyd yn helpu i gyfleu delwedd bositif o'r ysgol yn y gymuned ac yn fodd i adnabod disgyblion.

Cydnabyddwn fod gennym rwymedigaeth dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i amddiffyn hawliau unigolion i arddangos eu crefydd neu eu cred.

Byddwn yn sicrhau bod y wisg ysgol yn fforddiadwy a'i bod yn cynnig y gwerth gorau.

Mae polisi gwisg ysgol eglur a chytunedig yn Ysgol Bro Gwydir, a gofynnwn i ddisgyblion wisgo'u gwis ysgol â balchder.

Egwyddorion cael gwisg ysgol unffurf a smart:

· Mae'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth a chydlyniad o fewn yr ysgol ac yn annog balchder yn ei llwyddiannau

· Gall gefnogi ymddygiad positif a disgyblaeth ysgol

· Gall sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n addas ar gyfer gweithgaredd dysgu

· Gall ddileu pwysau gan gymheiriaid i wisgo'r ffasiwn ddiweddaraf

· Gall alluogi disgyblion o bob cefndir i rannu hunaniaeth gyffredin gan ateb eu gofynion penodol

· Gall helpu i leihau anghydraddoldeb rhwng myfyrwyr a rhai o'r pethau sy'n sbarduno bwlio

· Gall gynorthwyo gydag adnabod dieithriaid ar dir yr ysgol

· Gall gefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

GOFYNION GWISG YSGOL

- Crys-polo glas golau gyda logo ysgol.
- Crys chwys glas gyda logo ysgol.
- Trowsus llwyd/du trwsiadus.
- Sgert lwyd/du.
- Siorts llwyd/du
- Ffrog gotwm las a gwyn siec
- Esgidiau du fflat – Dim carrai na logo lliw.
- Sanau gwyn/du, neu deits du/llwyd.

DILLAD ADDYSG GORFFOROL

- Crys-polo gwyn
- Siorts glas/llwyd/du
- Sanau gwyn/du
- Esgidiau ymarfer
- Tracwisg ddu/las

NOFIO

- Siwt nofio un darn / Trowsus nofio (unrhyw liw)
- Lliain

GWALLT

Nid yw lliwio gwallt yn rhan o wisg Ysgol Bro Gwydir. Gofynnir i rieni a gofalwyr wneud pob ymdrech i barchu'r rheol hon. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Dylid clymu gwallt hir yn unol â'n Polisi 'Llau Pen'.

GEMWAITH

Am resymau diogelwch ni chaniateir gemwaith yn cynnwys breichledau, chadwyni na thlysau yn y trwyn. Caniateir un clustdlws ym mhob clust yn unig. Ni ddylid gwisgo unrhyw glustlysau ar gyfer gwersi addysg gorfforol.

ENWAU AR EIDDO

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gydag enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a dillad addysg gorfforol. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o ddychwelyd unrhyw ddillad coll. Bydd pob dilledyn sydd heb ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

CREFYDD

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.

GWEITHREDU

Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy:

- Ddirprwyo cyfrifoldeb tros weithredu'r polisi gwisg ysgol i'r athrawon dosbarth.
- Sicrhau bod gwiriadau yn digwydd yn rheolaidd a gofyn i bob staff adrodd ynghylch unrhyw ddisgybl sydd ddim yn cydymffurfio â'r polisi hwn
- Gosod sancsiynau am beidio â chydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol
- Ysgrifennu at rieni sydd yn torri'r polisi hwn gan ofyn am eu cefnogaeth cyn i unrhyw sancsiynau pellach gael eu gosod
- Cynnig cymorth mewn achos o galedi. Os oes gan rieni unrhyw drafferthion neu bryderon ynghylch prynu'r Wisg Ysgol, gofynnwn iddynt gysylltu â'r Pennaeth.
- Mewn achos o dywydd eithafol fe all y Pennaeth amrywio gofynion y wisg ysgol.

PWRCASU

Gellir prynu gwisg ysgol o Brodwaith Cletwr, Pentrefoelas neu Ar y Gweill, Llanrwst. Yn ogystal â dillad, mae capiau a bagiau darllen ar gael.

CYDRADDOLDEB

Mae'r corff llywodraethu yn sensitif i'r effaith potensial y gall gwisg ysgol ei chael ar hawliau pawb ac i'w rwymedigaeth i beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, crefydd, cred neu anabledd.

Rydym yn cydymffurfio â'r ddogfen Ganllaw ar gyfer Cymru "Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion" (Gorffennaf 2011) yn hyn o beth. Bydd y corff llywodraethu yn monitro unrhyw bryderon a fynegir mewn perthynas â'r wisg ysgol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

ADOLYGU A MONITRO

Mae'r polisi hwn i'w fonitro gan y corff llywodraethu a'i adolygu pob yn 3 mlynedd.

Bydd yr ysgol yn ymgynghori gyda rhieni a myfyrwyr ar unrhyw newid arwyddocaol i'r polisi.

INTRODUCTION

At Ysgol Bro Gwydir, we believe strongly that uniform plays an important part in supporting positive behaviour and discipline, develop the ethos of the schools and supporting teaching and learning. It also helps projects a positive image of the school in the community and in the identification of students.

We acknowledge that we have an obligation under the Human Right Act 1998 to protect the rights of individuals to display their religion or beliefs.

We will ensure that the school uniform is affordable and provides best value.

At Ysgol Bro Gwydir there is a clear, agreed uniform policy and we ask students to wear their uniform with pride.

Principles having a consistent, smart uniform:

- Provide a sense of identity and cohesion within the school and instils pride in its achievements
- Can support positive behaviour and school discipline
- Can ensure students dress appropriately for learning activity
- Can remove peer pressure to dress in “designer” fashions
- Can enable students of all backgrounds to share in a common identity which embraces their particular requirements
- Can help reduce inequalities between students and some triggers for bullying
- Can assist identification of strangers on school premises
- It can support and promote the ethos of the school.

SCHOOL UNIFORM EXPECTATIONS

- Light blue polo shirt with school logo.
- Blue sweatshirt with school logo.
- smart gray / black trousers.
- Gray / black skirt.
- Gray / black shorts
- Blue cotton and white check dress
- Flat black shoes - No color carry or logo.
- White / black socks, or black / gray tights.

PHYSICAL EDUCATION CLOTHING

- White polo shirt
- Blue / gray / black shorts
- White / black socks
- Training shoes
- Black / blue tracksuit

SWIMMING

- One piece swim suit / Swimming trousers (any color)
- ***Towel***

HAIR

Hair coloring is not part of Ysgol Bro Gwydir's uniform. Parents and carers are asked to make every effort to respect this rule. Any unusual hairstyles are discussed with parents when relevant to doing this.
Long hair should be tied in line with our 'Head Lice' Policy.

JEWELERY
For safety reasons jewelery including bracelets, chains or nose jewelery is not allowed in the nose. One stud earring is allowed in each ear only. No earrings should be worn for physical education lessons.

NAMES ON PROPERTY
We encourage parents, carers and children to ensure that all clothing is clearly labeled with the child's name. This includes PE shoes and clothing. This will facilitate the return of any lost clothing. All unclaimed clothing at the end of each half term goes to a nearby clothes bank or is recycled within the school.

RELIGION
If religious reasons require a child to dress in a certain way, then this will be discussed with parents in a sensitive and sensible manner.

ACTION
The Headteacher will ensure that this policy is implemented by:

• Delegate responsibility for implementing the school uniform policy to class teachers.

• Ensure that checks are made regularly and ask all staff to report any pupil who does not comply with this policy

• Impose sanctions for non-compliance with the school uniform policy

• Write to parents who are in breach of this policy and seek their support before any further sanctions are imposed

• Offer help in the event of austerity. If parents have any difficulties or concerns about purchasing the School Uniform, please contact the Headteacher.
• In the event of extreme weather the Headteacher may vary the uniform requirements.

PURCHASING
School uniform can be purchased from Cletwr Embroidery, Pentrefoelas or Ar y Gweill, Llanrwst. Caps and reading bags are also available.

EQUALITY
The governing body is sensitive to the potential impact that uniforms can have on everyone's rights and their obligation not to unlawfully discriminate on the grounds of gender, race, religion, belief or disability.
In this regard, we comply with the Guidance for Wales document "Guidance for Governing Bodies on School Uniform and Appearance Policies" (July 2011). The governing body will monitor any concerns expressed in relation to school uniform under equality legislation.

REVIEW AND MONITORING
This policy is to be monitored by the governing body and reviewed every 3 years.
The school will consult with parents and students on any significant change to the policy.